

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, nos Fawrth y 13eg o Fedi 2016

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair) – Penygroes; OP Huws, Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Ffion Jones – Nantlle; Sharon Wynne Jones – Talysarn; PC Alex Higgins a Sgt Kennedy eitem 3 / **Ymddiheuriadau:** Peter Thomas – Talysarn; Justin Davies, Nerys Williams, Dyfed Edwards – Penygroes; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
- 2. Sedd Nebo/Nasareth** Croesawyd Dafydd Thomas i'r Cyngor yn aelod newydd dros Nebo a Nasareth.
- 3. Gwadd: Sgt Owain Llywelyn** Mynychodd Sgt Kennedy ar ran Sgt Owain Llywelyn, a PC Alex Higgins. Rhoddwyd y Rheolau Sefydlog o'r neilltu a thrafodwyd yn Saesneg. Trafodwyd pryderon ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Llanllyfni. Yr heddlu yn mynegi fod y sefyllfa wedi gwella a bod difrifoldeb y troseddau wedi gostwng. Dywedwyd nad yw'r ystadegau yn wir adlewyrchiad o'r digwyddiadau yn y pentref a bod rhaid adrodd cwynion I'r Heddlu fel eu bod yn cael eu logio ar y system a'u cofnodi. Er enghraifft os oes materion ynglyn a chwn afreolus neu bryderon am lles plant, yna dylid cysylltu gyda'r Heddlu ar 101 os nad yw'n argyfwng neu 999 os yn argyfwng. Bydd yr Heddlu wedyn yn adrodd y gwyn I'r Awdurdodau perthnasol. Dywedwyd fod posib adrodd am ddigwyddiad heb orfod rhoi cwyn swyddogol. Gofywyd I'r Heddlu am fwy o bresenoldeb yn Llanllyfni..
Graffiti wedi ei baentio yn lloches bws Penygroes, Harry Wyn Owen wedi bod mewn cyswllt efo Cyngor Gwynedd, a PCSO Julie Holland wedi bod yn ceisio glanhau. Cadarnhawyd fod dau heddwes yn gweithio o orsaf Penygroes a dau PCSO (un ar ddyletswyddau ysgafn).
Dywedwyd wrth yr Heddlu am bryderon yn Nhalysarn am feiciau cwad yn cael eu gyrru yn y chwarel a chreu difrod.
Rhannwyd pryderon am or-yrru drwy bentref Nantlle, yn enwedig yn y bore (ac yn Nhalysarn hefyd). Roedd pryderon am fysiau yn gyrru hefyd. Alex Higgins yn dweud y byddai yn fodlon mynd I'r lleoliadau yma gyda chamera cyflymder.
- 4. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant personol.
- 5. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf.** OP Huws yn datgan cywirdeb y cofnodion a Hefina yn eilio. Un cywirdeb, sef cyfeiriad Dafydd Thomas – Nebo, ac nid Nasareth fel y cofnodwyd.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Biniau halen – wedi cadarnhau penderfyniad y Cyngor I beidio cytuno I gymryd y biniau halen drosodd, ac I ail-edrych ar y sefyllfa y flwyddyn nesaf; OP Huws yn adrodd fod John Povey wedi gweud cais am grant toiledau cyhoeddus. Os daw cais cynllunio ger bron y Cyngor yn y dyfodol I newid defnydd y garej yn siop, byddai yn syniad gofyn am doiled cyhoeddus yn y cais cynllunio – darllenwyd llythyr PC Alex Higgins parthed defnydd y toiledau yn yr orsaf heddlu gan y cyhoedd, ac fe'I hysbyswyd beth oedd penderfyniad y Cyngor Cymuned am doiledau cyhoeddus Penygroes.
- 7. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio** - Adrodd yn ol i'r Cyngor. Cyfarfod cydweithio nesaf ar y 22ain o Fedi – trafod peiriannau parcio Dinas Dinlle. OP Huws wedi trefnu cyfarfod gydag Eric Jones, Groeslon; OP Huws wedi bod yn holi Sian Gwenllian am wybodaeth parthed cynllun newid cyflenwad trydan cymunedol; OP Huws wedi bod yn holi Dewi Llwyd am yr egwyddor o sefydlu cynllun trydan dwr – chwarel Ty Mawr East; Mark Balaam wedi holi'r Cynulliad am gynllun Community Benefit yn sgil ffordd osgoi Bontnewydd; Cytundeb torri gwair ar y cyd – penderfynwyd peidio a chau y drws ar egwyddor cael un cytundeb mawr – un mantais fyddai y gall hyn fod yn fwy effeithiol gydag arian; Cyfarfod trafod y Fic – sefydlu grwp ar y gweill, a si fod y Fic wedi ei werthu.
- 8. Cynllunio** C16/0924/22/LL – Llys Ifor, Ffordd Pont Lloc, Nebo – newid defnydd tir I greu manau parcio, estyniadau a newidiadau I'r ty presennol ynghyd ac addasu'r adeilad allanol ar gyfer uned wyliau – trafodwyd y cais, a phenderfyniad y Cyngor oedd caniatáu gydag amodau sef na fyddai modd trosi'r ty haf arfaethedig yn dy parhaol, ac hefyd holi os yw'r lon yn addas; C16/ 0862/22/LL – Tir ger Coed Madog, Talysarn – Newid amod 2 o ganiatad cynllunio er mwyn ymestyn yr amser a roddwyd I gyflwyno'r materion a godwyd - caniatáu; C15/0796/22/TC – Fferm Taldrwst, Llanllyfni – tystysgrif cyfreithloni datblygiad-caniatáu; C16/0837/22/MG – Tir ger Lon Pitar, Penygroes – Cais materion a gadwyd yn ol - caniatáu; C16/0816/34/MW – Chwarel Cefn Graianog – estyniad dwyreiniol arfaethedig ar gyfer echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol. Derbyn; Gofynwyd I'r Clerc holi Cyngor Gwynedd eto am y datblygiad yn Bryn Teg, Nasareth, a mynd a'r gwyn ymhellach os na ddaw ymateb.

9. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Gorchymyn cyngor Gwynedd – manau parcio – deiliad trwydded anabl, Llanllyfni. Cwestiynnu'r cais, a gofyn os mai cais I ddileu a ddylai fod?

*Taliad praesept wedi ei dderbyn.

Arall

*Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol – galw am ddarpar safleoedd. Rhoddwyd I Ffion.

*Un Llais cofnodion pwyllgor 15/6. Derbyn.

*Clerks and Councils Direct – ar y bwrdd.

*Llywodraeth Cymru – Gorchymyn Cefnffordd – Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd. Pwyso I gadw at yr amserlen.

*Grid Cenedlaethol – gwaith cysylltu ynni carbon isel rhwng Pentir a Trawsfynydd. Cofrestru am fwy o wybodaeth.

*Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol – asesiad o fannau agored. I Ffion er gwybodaeth.

*Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygu Cynllun Datblygu Lleol – dogfen. I Ffion er gwybodaeth.

10. **Materion Pentrefi.** Penygroes Angen diolch i Julie Holland am lanhau'r lloches bws; Taflen faw cwn (a baratowyd gan Justin) – y Cadeirydd yn hapus gyda'r cynnwys. Aros am adborth Peter Simpson, Cyngor Gwynedd i gael symud pethau ymlaen. Cefnogi a diolch i Justin am ei waith caled.

Llanllyfni Mainc – penderfynwyd holi a bris mainc newydd i'w rhoi yn lle'r un sydd wedi ei difrodi. Gofyn i Gyngor Gwynedd os y byddent yn fodlon rhoi rhodd o un o'r meinciau sydd tu ol i'r ffens yng nghae chwarae Talysarn ac yn amlwg ddim yn cael defnydd; Parcio yn broblem yn y pentref – bu bron iawn damwain ym mynedfa lon yr ysgol, gyda lori a bws yn clipio'i gilydd. Ceir yn cael eu parcio yr holl ffordd i'r pen ar y llinellau melyn wrth y troead am yr ysgol. A oes unrhyw beth all y Cyngor neu'r Heddlu ei wneud i atal pobl rhag parcio yno? Lon Ddwr – brigau coed o Ty Felin i'r lon ac angen eu tocio; Cwynion am olwg yn y Quarry – ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gwyno a gofyn os oes unrhyw beth y gallant ei weud. Coed yn tyfu drosodd yno. Yn ogystal mae'r 'trap-door' yno yn beryglus.

Nantlle – 'No's' dal ar yr arwydd yn Nantlle; meinciau angen eu peintio – gofyn wrth Cyngor Gwynedd; Lon Tai Nantlle – brwyn dal yno a'r biniau $\frac{3}{4}$ ffordd i fewn i'r lon.

Talysarn – Ysbwriel yn y parc sglefrio. Biniau yn llawn erystalwm, ac ysbwriel yn dechrau hedfan o gwmpas; Cysylltu efo'r Bwrdd Dwr – Carthffosiaeth yn gorlifo yn cae Taldrwst ger Tanrallt.

Nebo/Nasareth – Cerrig wedi eu rhoi ar y palmant tu allan i Hafod Unos ble mae'r swyddfa bost teithio yn parcio ac yn rhwystr i bobl barcio – gofyn i Gyngor Gwynedd pwy bia'r tir; Cwynion am safon torri gwair. Gwair wedi ei adael ar hyd y ffordd – unwaith daw glaw, bydd y gwair yn golchi i lawr i'r gwlliau ac yn eu cau; Twll yn y ffordd yn Nasareth – Ffordd Tyn Parc.

Penygroes - Coed yn cuddio arwydd y Llwybr i Maes Dulyn dros y ffordd i Garej Povey.

11. **Llwybrau a Mynwentydd.** Cwynion am lwybrau – Llwyn Piod 12, Ty Mwd 101, Nant y Fron 55. Gyrru copi o'r rhestr torri llwybrau I'r Cynghorwyr; Llwybr 86 – gofyn I Gyngor Gwynedd gadarnhau ffordd mae'r llwybr yn mynd, ac hefyd mae angen ei chlirio; Pont Boncen Eithin – slatiau pren ar goll a'r bont yn beryglus; Diolch I Gyngor Gwynedd am dorri coed wrth ymyl yr afon yn Talysarn, ond mae angen torri'r goeden 10m yn uwch I fyny sy'n creu'r broblem.

Y Cyngor ddim yn hapus efo safon y gwaith lladd chwyn – ysgrifennu at y contractiwr i'w hysbysu y gyddwn yn talu'r bil pan fod y gwaith wedi ei gwblhau yn iawn; Dwy goeden gelyn ar ddau fedd yn Gorphwysfa – y Cyngor yn cytuno i Harry Wyn ofyn wrth Ifan ac Idris i'w tynnu; Bedd wedi disgyn yn Gorphwysfa, a dim teulu i gysylltu gyda hwy – y Cyngor i lenwi; Cwyn fod tractor torri gwair ym mynwent MacPelah yn fuan wedi angladd a'r teulu I gyd heb adael y fynwent – hyn yn ddigwyddiad anffodus, ond yr contractwyr ddim yn ymwybodol fod cynhebrwng wedi ei drefnu y diwrnod hwnnw. Y Clerc I yrru manylion unrhyw gynhebrwng sydd yn cael ei drefnu yn y dyfodol iddynt er gwybodaeth a hwylustod; Coed bychan yn tyfu yn St Rhedyw. Penderfynwyd eu tynnu rwan cyn iddynt dyfu yn fwy; Tir ger Gorphwysfa – dal I ysgrifennu I holi am brynu tir; Pridd yn cael ei adael yn y corlenni blodau; Cwyn fod gwair wedi ei dorri yn cael ei adael gan y Cyngor yn y cae – ffens wedi ei gosod fel bod anifeiliaid ddim yn gallu mynd at y gwair yma; Honiad fod carreg wedi tarro ffenest ty wrthi gwair gael ei dorri ar ochr cae chwarae Cwtin. Hyn wedi codi cwestiwn pa mor saff yw cario mlaen yn gwneud hyn (iechyd a diogelwch) – fe all fod wedi bod llawer gwaeth. Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd I'w hysbysu oherwydd toriadau yn y gyllideb, ni allwn

dorri'r ochrau yn y cae o hyn allan ac am mai eu cyfrifoldeb nhw ydy'r cae chwarae, eu cyfrifoldeb hwy yw torri'r ochrau hefyd.

12. Materion yn ymweud a'r heddlu.

13. **Materion ariannol.** Ffon/Rhynggrwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc £15.36; Scottish Power £45.56; Scottish Power £29.15; Llungopio Intelligens £5.60

14. Ceisiadau am arian. Dim

15. *Taenlen i'w chymeradwyo a Ffurflen Fonitro Cyllid. Adolygwyd y sefyllfa gyllid bresennol ac ardystiwyd y ffurflen. Cymeradwywyd y daenlen.